## Amodau ar gyfer defnyddio Cestyll Neidio a dyfeisiau eraill wedi eu llenwi ag aer yn y Neuadd

1. Cyn archebu'r Neuadd mae angen i chi roi tystiolaeth i ni fod gennych chi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi ei drefnu. Mae hwn yn ofyniad gan ein hyswirwyr. Felly bydd angen i chi gael e-bost gan bwy bynnag rydych chi'n llogi'r castell neidio ganddo sy'n cadarnhau y bydd eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cynnwys y digwyddiad*, gyda chopi o'r yswiriant hwnnw ynghlwm wrth yr e-bost.

2. Ar yr un pryd ag archebu'r neuadd, anfonwch yr e-bost cadarnhau hwnnw ymlaen i: post@neuaddrhiwlas.cymru

   Ni fydd unrhyw archeb yn cael ei chadarnhau heb y dystiolaeth hon bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi ei drefnu.

3. Wrth archebu, cofiwch gynnwys digon o amser ar gyfer gosod a glanhau'r neuadd wedyn, gan ei gadael fel y'i cafwyd a mynd â'ch sbwriel i ffwrdd gyda chi.

4. Ni ddylai'r castell fod yn fwy na 3m (10 troedfedd) o uchder.

*** Noder, dim ond pan fydd aelod o'u staff yn bresennol y gall yswiriant y cwmni llogi castell neidio gynnwys y digwyddiad.**